**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

# Chwarae Teg

## Fformat

Cyflwyniadau

Nod y cyflwyniad

Trosolwg Chwarae Teg

Brîff yr ymchwil

Canfyddiadau'r ymchwil

Ystyriaethau i'r Pwyllgor

Cwestiynau ac atebion

## Nod y cyflwyniad

- Rhoi diweddariad byr ar waith Chwarae Teg yn y flwyddyn y mae'n dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed
- Hysbysu'r aelodau o waith ymchwil presennol
- Trafod materion sydd o ddiddordeb i'r pwyllgor a Chwarae Teg

## Trosolwg Chwarae Teg

Wedi'i sefydlu ym 1992 gan gonsortiwm o asiantaethau'r sector cyhoeddus i gefnogi, datblygu ac ehangu rôl merched yn economi Cymru, cydnabyddir Chwarae Teg bellach fel y prif sefydliad ym maes datblygiad economaidd merched yng Nghymru, y DU ac yn Ewrop.

Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:

Cyflogaeth, Menter, Addysg a Hyfforddiant a Pholisi Cyhoeddus.

Mae'r partneriaid allweddol yn cynnwys:

Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Uned Cydraddoldeb GIG Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ELWa, TUC Cymru a CBI Cymru.

Derbynnir arian drwy grantiau craidd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, incwm contract, arian Ewropeaidd, tanysgrifiadau aelodaeth a chymorth arall gan bartneriaid y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Cysylltiadau allweddol y Cynulliad:

Yr Adran Nawdd: (Yr Adran Polisi Hyfforddi, Sgiliau a Gyrfaoedd)

Yr Adran Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd

Polisi Gofal Cymdeithasol

Yr Uned Polisi Cydraddoldeb

Mae Chwarae Teg yn aelod o'r Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol, y Panel Adolygu Gofalwyr, Gr•p Llywio Gofalwyr mewn Gwaith Cymru, Bwrdd Clybiau Plant Cymru (sefydliad newydd Clybiau y Tu Allan i Oriau Ysgol Cymru) yn ogystal â rhwydweithiau economaidd ac Ewropeaidd eraill.

**Brîff yr ymchwil**

Sail gweithgaredd cychwynnol a rhesymeg Chwarae Teg oedd ymchwil eang a gynhaliwyd yn y 90au cynnar ac ymchwil ddilynol ym 1996. Defnyddiodd ein hastudiaeth ddiweddaraf yn ystod hydref 2001 samplau cynrychioliadol o 1000 o ferched a 500 o gyflogwyr.

Y pum prif faes ymchwil oedd:

- Agweddau at gyflogaeth
- Rhwystrau canfyddedig at gyflogaeth
- Cymhelliant i weithio
- Mesurau cymorth a gynigwyd gan gyflogwyr a mesurau cymorth sy'n fanteisiol i gyflogeion
- Yn olaf, dylanwad deddfwriaeth

**Crynodeb o brif ganfyddiadau'r ymchwil**

- Mae rôl merched yn y gweithle yng Nghymru wedi newid er gwell dros y deng mlynedd ddiwethaf
- Mae deddfwriaeth wedi gwella pethau – yn arbennig ar gyfer gweithwyr rhan amser
- Ceir diffyg hyfforddiant amlwg yn arbennig ar gyfer cyflogeion rhan amser
- Caiff gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill ddylanwad mawr ar ferched a gwaith
- Ceir anghysondeb rhwng y mesurau gweithio hyblyg a gynigir gan gyflogwyr, neu'r rhai sy'n hysbys i gyflogwyr, neu y manteisir arnynt gan gyflogeion
- Mae bwlch cyflog parhaus rhwng dynion a merched
- Mae anwybyddu potensial a diffyg cydraddoldeb yn parhau i fod yn broblem.

**Ystyriaethau i'r Pwyllgor**

Stereoteipio

Rhywstrau mewn perthynas â gofal ac hyfforddiant

Diwylliant

**Safle Chwarae Teg**

Mae Chwarae Teg yn awyddus i ddatblygu ei rôl mewn perthynas â'r agenda economaidd a rôl merched.

Rydym ar hyn o bryd yn trafod partneriaethau gyda nifer o sefydliadau.

Hoffem hefyd wneud y defnydd gorau o'r cyfle i gynyddu arian Ewropeaidd i'r eithaf tra'n cwrdd â themâu traws-bynciol cyfle cyfartal a datblygiad cynaliadwy'r Cynulliad.